Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Penrhyncoch
# Penrhyn-coch
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3EH

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Penrhyn-coch ym mhentref Penrhyn-coch, ger Aberystwyth, yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae’r ysgol yn gwasanaethu disgyblion y pentref ac ardal ehangach plwyf Trefeurig. Mae’r pennaeth yn gofalu am ysgol gyfagos arall ac mae’r ddwy ysgol yn cydweithio’n gyson fel ffederasiwn anffurfiol.

Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg fel pwnc ar ddechrau cyfnod allweddol 2. Mae 92 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys tri oed meithrin amser llawn. Mae’r disgyblion wedi eu rhannu rhwng pedwar dosbarth oed-cymysg.

Tua 6% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn llawer is na’r canran cenedlaethol o 19%. Tua hanner y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae’r ysgol wedi adnabod tua 33% o’r disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym mis Ebrill 2016 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Gymynedol Penrhyn-coch yn 2016-2017 yw £3,428. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8,440 a'r lleiafswm yw £3,123. Mae Ysgol Gymraeg Gymunedol Penrhyn-coch yn y 37eg safle o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da neu gwell o'u mannau cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen
- disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol
- bron bob un disgybl yn deall bod bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd yn bwysig i'w hiechyd
- darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn ddyfal a llwyddiannus
- defnydd o gymorthyddion i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu yn bwrpasol
- staff yn defnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn greadigol i wella'r ddarpariaeth

Fodd bynnag:

- mwyafrif y disgyblion sy'n cyflawni'n briodol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- mae medrau ysgrifennu ymestynnol a defnydd o rifedd ar draws y cwricwlwm tua hanner y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn foddhaol
- ystod addas o brofiadau dysgu perthnasol sydd ar gael i herio disgyblion ac effeithio ar eu safonau dros amser
- mae safon yr addysgu yn anwadal ar draws yr ysgol
- anghyson yw effaith adborth athrawon, wrth geisio gwella gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu cyfeiriad clir a chadarn ar gyfer gwaith yr ysgol
- yr uwch dîm rheoli yn gweithredu'n well yn ddiweddar ynglŷn ag anghenion datblygu'r ysgol
- cyfeiriad strategol newydd yr ysgol wedi creu gwelliannau pwrpasol a sylweddol mewn cyfnod byr
- prosesau gwella ansawdd yn dechrau effeithio ar safonau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2
- y corff llywodraethol yn dechrau gwreiddio systemau effeithlon ym mywyd yr ysgol i greu atebolrwydd ynglŷn ag effaith y ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion
- partneriaethau defnyddiol yn cefnogi'r ddarpariaeth yn effeithiol

- pob un o'r staff yn frwdfrydig ynglŷn â gwella eu harferion ac maent yn cymryd rhan weithredol mewn datblygiad a hyfforddiant proffesiynol

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llythrennedd a rhifedd yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella cynllunio tymor byr i greu dilyniant pwrpasol yn y ddarpariaeth

A3 Gwella'r addysgu llai effeithiol i sicrhau cysondeb a gwelliannau yng ngwaith dyddiol disgyblion ar draws yr ysgol

A4 Sicrhau bod adborth athrawon i waith disgyblion yn gyson ac yn arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn eu dysgu

A5 Gwreiddio rôl y llywodraethwyr i ddatblygu fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol

A6 Mireinio prosesau gwella ansawdd i sicrhau gwelliannau yn neilliannau disgyblion

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau sy’n cyfateb i’w hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da neu gwell o’u mannau cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyflawni’n briodol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn gwrando’n astud. Mae llawer yn ymateb yn frwdfrydig i’w hathrawon a disgyblion eraill yn y Gymraeg wrth drafod eu gwaith. Maent yn gwrando’n dda ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb yn hyderus i gwestiynau gyda geirfa a chystrawen gynyddol gymhleth. Maent yn cyfranogi’n frwdfrydig mewn sgyrsiau pwrpasol yn ystod gweithgareddau ysgogol, fel trafod y goedwig ac effaith sbwriel ar yr amgylchfyd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar drafodaethau ac yn siarad yn synhwyrol gydag oedolion a disgyblion eraill. Maent yn defnyddio ystod eang o eirfa wrth drafod yn Saesneg. Mae lleiafrif yn defnyddio geirfa soffistigedig i ymhelaethu’n huawdl ar eu trafodaethau yn y Gymraeg. Mae’r disgyblion hyn yn cyfranogi’n effeithiol mewn dadleuon ac mae ychydig yn cynnig barnau sy’n procio’r meddwl, er enghraifft os dylid cau swâu a’u gwahardd er lles yr anifeiliaid. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn colli diddordeb mewn trafodaethau’n gyflym. Maent hefyd yn anwybyddu’r athrawon wrth iddynt geisio gadw’r lleiafrif hwn ar dasg.

Mae medrau darllen bron pob un disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu’n gadarn. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn gynyddol hyderus a chywir yn y Gymraeg. Maent yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus ac yn dechrau darllen gyda mynegiant clir. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth sicr o’r cyd-destun, cymeriadau a’r plotiau mewn storïau. Maent yn lleisio barnau aeddfed ynglŷn â storïau, rhagweld gweithredoedd cymeriadau yn synhwyrol ac yn mwynhau ailadrodd storïau, gan actio digwyddiadau a chofio manylion gyda chywirdeb.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn darllen i safon sydd o leiaf yn briodol i’w hoedran a’u gallu. Mae’r disgyblion mwy galluog yn darllen yn gadarn dda. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio llyfrau ffeithiol a’r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth berthnasol a dibynadwy am y testunau y maent yn eu hastudio yn y dosbarth. Mae’r mwyafrif yn ateb cwestiynau’n synhwyrol ynglŷn â’u gwaith a’u llyfrau, gan gynnwys storïau ffuglennol a bywgraffiadau am awduron a dyfeiswyr enwog. Mae’r disgyblion hyn yn rhannu’u barnau yn llwyddiannus yn ystod trafodaethau, er enghraifft wrth arbrofi’n wyddonol ar effaith grymoedd a gwthiant aer ar hofrenyddion papur.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio cymariaethau, idiomau ac amrediad eang o ansoddeiriau i gyfoethogi eu gwaith. Gwelir hyn wrth ymateb i stori Jac a'r goeden ffa, ac wrth gofnodi amrywiol weithgareddau yn ystod pythefnos Masnach Deg. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i ailadrodd storïau yn ffeithiol gywir a chofnodi digwyddiadau dychymygus. Maent yn defnyddio mapiau stori a chwarae rôl yn hyderus er mwyn creu strwythur pwrpasol i'w hysgrifennu creadigol yn electronig ac ar bapur. Ar y cyfan, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith yn ddestlus ac wedi'i drefnu'n dda.

Mae gwelliannau amlwg yn safonau ysgrifenedig disgyblion wrth gymharu llyfrau'r flwyddyn ddiwethaf â'r flwyddyn hon. Fodd bynnag, dim ond tua hanner y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 sy'n llwyddo wrth ysgrifennu mewn amryw o ffurfiau gwahanol, fel sgript ar ferched Beca, barn ar fantais ceir a chynllun am wyliau yn Aberystwyth. Ar draws y cyfnod, mae lleiafrif y disgyblion yn ymestyn eu hysgrifennu mewn ffyrdd diddorol. Nid yw'r mwyafrif yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn ddigon effeithiol ac ymestynnol wrth ysgrifennu ar draws meysydd a phynciau'r cwricwlwm. Mae sillafu ac atalnodi'r mwyafrif y disgyblion yn gywir ac yn gyson. Fodd bynnag, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y mwyafrif yn anniben ac anrhefnus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen yn cyfrif yn hyderus ac yn dosbarthu gwrthrychau neu'n cyfateb rhif â gwrthrych yn llwyddiannus gan ddefnyddio offer priodol. Maent yn adnabod siapiau 2D yn gywir, wrth iddynt baratoi pitsa yn y gegin chwarae rôl. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen amser yn gywir, mesur tyfiant ffa a chreu siapiau 2D a 3D gyda brigau coed. Mae eu dealltwriaeth o ffracsiynau syml yn datblygu'n gadarn ac mae llawer yn trefnu gwrthrychau yn ôl hyd. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol i ddadansoddi a datrys problemau ar draws y meysydd dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio canrannau o feintiau yn gywir ac yn esbonio'n glir sut gwnaethant lunio'u hatebion. Mae dealltwriaeth gadarn gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o sut i gyflwyno a dehongli ystod o ddata. Mae'r mwyafrif yn dewis eu dulliau eu hunain o gofnodi data rhifiadol ac yn esbonio'u penderfyniadau'n addas. Mae llawer yn datrys problemau yn synhwyrol gan ystyried yr hyn y maent yn ei wybod yn barod er mwyn dod o hyd i ateb. Fodd bynnag, dim ond ychydig o'r disgyblion mwy galluog sy'n cyflawni tasgau ymestynnol ar lefelau sy'n uwch na'r disgwyl, a chyfyng yw defnydd y disgyblion hŷn o rifedd mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio llechi electronig ac offer arall yn hyderus at wahanol ddibenion. Mae llawer yn mewngofnodi cyfeiriadau i lunio taith teganau electronig yn gywir ac yn cofnodi eu gwaith ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau, cynhyrchu cyflwyniadau digidol ar sgrîn, ffurfio graffiau ac ymchwilio ar y rhyngrwyd yn hyderus mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion hŷn yn dechrau defnyddio ac ymholi taenlenni yn briodol.

Dros y blynyddoedd, ychydig bach o ddisgyblion oedd yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio ar berfformiad yr ysgol o'i gymharu â meincnodau ysgolion tebyg a'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae hyn yn golygu nad yw'r data meincnod yn gwbl ddibynadwy.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, mae safle'r ysgol wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 50% uwch.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ym mhob pwnc craidd o ran y deilliant disgwyliedig, mae safle'r ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r perfformiad ar y deilliant uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 50% is a rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg a Saesneg.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau personol. Niferoedd bach iawn sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, felly, nid oes patrwm dibynadwy o wahaniaeth rhwng eu perfformiad a pherffomiad disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni'n dda o ran eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut i gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol a gwneud ymarfer corff trwy weithgareddau chwaraeon rheolaidd.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi. Mae llawer yn wybodus wrth drafod yr angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol y maent yn byw ynddo. Mae llawer yn ymddwyn yn gyfrifol ac maent yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a'u cyfoedion. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yr ysgol dros gyfnod o bedair blynedd gan amlaf yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol iawn ym mywyd yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau synhwyrol, er enghraifft wrth ddatblygu'r toiledau a gwella problemau traffig o gwmpas yr ysgol. Maent yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion. Mae hyn yn amlwg ar draws yr ysgol trwy waith y cynghorau a thrwy gysylltiadau cadarn iawn â'r gymuned leol.

Mae'r disgyblion yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion eraill. Mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu priodol, sy'n bodloni anghenion a diddordebau llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae cynlluniau tymor hir yn cwmpasu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth disgyblion. Mae'r cynllunio o ran gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn gyson gadarn. Fodd bynnag, nid yw cynllunio tymor byr yng nghyfnod allweddol 2 yn darparu cyfleoedd heriol i'r disgyblion gyda digon o gysondeb.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd drwy gychwyn ar y broses o fapio'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cynllunio amrediad buddiol o weithgareddau, sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth y disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu a chymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn gyson.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn effeithlon ac mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio'r Gymraeg yn gywir ac yn rheolaidd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad llawer o ddisgyblion yn y Gymraeg. Ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal a hanes a diwylliant Cymru drwy weithgareddau allgyrsiol yn y gymuned leol, fel ymweld ac ymchwilio yng nghoedwig Gogerddan. Felly, mae amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, ynghyd â chyfraniadau gan aelodau'r gymuned, yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn effeithiol.

Mae'r profiadau ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu ymwybyddiaeth disgyblion am sut i fyw mewn modd cynaliadwy, er enghraifft drwy weithgarwch y pwyllgor eco. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy astudio ffordd o fyw pentrefi mewn gwledydd eraill. Enghraifft effeithiol o hyn yw mabwysiadu gafr i gefnogi cymuned yng nghyfandir Affrica.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith, yn seiliedig ar barch a chwrteisi, yn bodoli rhwng yr athrawon, y cymorthyddion a'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym mhob dosbarth. Mae hyn yn hyrwyddo amgylchedd dysgu buddiol. Mae'r staff mwyaf effeithiol yn rheoli ymddygiad heriol yn bwrpasol drwy bennu disgwyliadau clir. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodelau iaith da ac mae cymorthyddion yn cyfoethogi profiadau grwpiau ac unigolion yn bwrpasol.

Mae'r athrawon mwyaf effeithiol yn holi cwestiynau agored i ddisgyblion yn gyson, cyn rhannu gwybodaeth a chysyniadau newydd iddynt. Fodd bynnag, mae safon ac effaith yr addysgu yn anwadal ar draws yr ysgol.

Yn ystod gwersi llwyddiannus, mae gwybodaeth bynciol dda, amrywiaeth o ddulliau addysgu a holi medrus yr athrawon yn ennyn diddordebau llawer o ddisgyblion yn bwrpasol. Yn y gwersi llai ysgogol, mae athrawon yn cyflwyno am gyfnodau rhy hir ac mae disgyblion yn aros yn oddefol am gyfnodau estynedig. Mae hyn yn effeithio'n niweidiol ar ddysgu'r disgyblion, momentwm gwersi ac ymddygiad lleiafrif o blant.

Mae disgwyliadau uchel ar gyfer y disgyblion gan tua hanner yr athrawon ynglŷn â safonau llythrennedd a rhifedd. Maent yn hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft mewn darpariaeth barhaus ac ardaloedd i gyfoethogi dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau pob athro yn ddigon uchel ar gyfer datblygu medrau iaith a mathemategol disgyblion, yn enwedig disgyblion uwch eu gallu yng nghyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, nid yw'r tasgau dysgu yn cynnig digon o her iddynt. Felly, nid yw'r disgyblion hyn yn cyflwyno'u gwaith gorau'n rheolaidd ar ddiwedd tasgau.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio asesu'n bwrpasol i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r arferion newydd yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol erbyn hyn. Mae'r athrawon yn nodi agweddau cadarnhaol yng ngwaith disgyblion ac yn rhoi awgrymiadau priodol ynglŷn â sut y gallant wella'u gwaith. Yn y mwyafrif o enghreifftiau lle mae'r adborth i waith disgyblion yn effeithiol, mae sylwadau yn nodi'r camau nesaf yn nysgu disgyblion trwy dargedau cytûn ar gyfer gwella, ond anghyson yw eu heffaith uniongyrchol ar wella gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion ac yn cynnwys gwybodaeth addas am gynnydd disgyblion. Maent yn darparu gwybodaeth briodol iddynt ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel a gofalgar a cheir ethos o barch a chefnogaeth i ddisgyblion yng nghymuned yr ysgol. Mae'r cymorth a'r arweiniad sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion yn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau emosiynol a chymdeithasol. Mae trefniadau cynhwysfawr gan yr ysgol i hyrwyddo ac annog bwyta ac yfed yn iach, ac ymarfer corff rheolaidd.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, a'r sesiynau addoli ar y cyd, yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae ansawdd y gynhaliaeth a'r gofal i ddisgyblion yn gadarn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn fuan ac yn galluogi'r disgyblion i gael mynediad priodol i'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae cwricwlwm amgen yng nghyfnod allweddol 2 yn galluogi unigolion i ddatblygu'n briodol yn eu dysgu a'u medrau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau allanol yn y goedwig a chyfleoedd i ddysgu am fecaneg beiciau.

Hefyd, mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag amrywiaeth o asiantaethau arbenigol i sicrhau'r gefnogaeth orau bosibl, gan gynnwys seicolegwyr addysg, athrawon ymgynghorol, therapyddion iaith a lleferydd a'r heddwas cyswllt.

Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni a gofalwyr yn y broses er mwyn creu cyswllt adeiladol rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r ysgol yn defnyddio cymorthyddion addysgu yn

effeithiol iawn. Maent yn cefnogi'r addysgu ac yn darparu rhaglenni ymyrraeth gwerthfawr. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion penodol yn gwella'n gyson yn unol â'u galluoedd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chaiff yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal at yr holl brofiadau dysgu. Mae staff yn annog disgyblion i drin eraill â gofal ac i ddangos parch at ei gilydd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ofalgar gydag awyrgylch teuluol. Mae amgylchedd yr ysgol yn lân ac yn drefnus. Ceir ystod dda o adnoddau ym mhob ardal o'r adeilad i gefnogi dysgu disgyblion yn bwrpasol.

Mae arddangosfeydd deniadol yn gwella'r amgylchedd dysgu ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn effeithiol. Mae'r staff wedi gwella'r defnydd o'r gofod sydd ar gael, er enghraifft trwy ddatblygu ardal gymorth ac ymyrraeth lwyddiannus i gefnogi grwpiau bach o ddisgyblion.

Ceir ardal fawr y tu allan sy'n cael ei chynnal yn drwyadl. Mae adnoddau dysgu yn yr awyr agored, fel y cwt ieir a'r ardaloedd plannu, yn cyfoethogi dysgu disgyblion yn dda. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo gweithgareddau difyr a chyffrous. Mae defnydd y staff o'r ardaloedd tu allan yn ehangu profiadau dysgu disgyblion yn bwrpasol. Maent yn darparu mannau dysgu hyblyg, sy'n galluogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol a synhwyrol yn eu dysgu eu hunain.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi rhoi arweiniad pwrpasol i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir i godi safonau a chynnwys yr holl randdeiliaid ym mhrosesau'r ysgol. Mae wedi rhoi nifer o weithdrefnau newydd a chadarn ar waith. Fodd bynnag, mae'n llawer rhy gynnar i weld effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion a threfniadau'r ysgol eto.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac mae trefniant yn ei le erbyn hyn i gynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod ar y cyd. Mae hyn yn hyrwyddo cydweithio llwyddiannus rhwng y staff a'r pennaeth newydd. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn cyfrannu at welliannau mewn dysgu ac addysgu a chynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar iawn. Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau monitro'n ddiweddar er mwyn datblygu eu rôl strategol a'u gallu i herio'r ysgol. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o berfformiad a safonau'r disgyblion yn datblygu ac mae ganddynt wybodaeth gynyddol am feysydd sydd angen eu gwella. Maent wedi dechrau ymweld â'r ysgol i fonitro safonau drwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae hyn yn fodd i ddatblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu arweinyddion a pharatoi fframwaith cymhwyso digidol. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad staff a phrofiadau disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi rhoi prosesau hunanarfarnu effeithiol ar waith sy'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn llwyddiannus.

Mae systemau cadarn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â gwelliannau yn bwrpasol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu wedi'i seilio ar dystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau o wersi, craffu ar waith disgyblion, adolygu gwahanol agweddau ar y ddarpariaeth a dadansoddi data yn fanwl. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi cael digon o amser eto i ymsefydlu, gwreiddio ac effeithio ar ddeilliannau yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn gynhwysfawr, gyda nifer fawr o dargedau gwella wedi eu nodi. Mae'r ddogfen yn deillio o ganfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n briodol ar wella safonau dysgu a lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw bwriad pob blaenoriaeth yn ddigon clir bob amser. Mae hyn wedi bod yn argymhelliad ers yr arolygiad blaenorol. Yn ogystal, nid oes tystiolaeth fod yr ysgol wedi sicrhau cynnydd llawn yn erbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn.

Mae cynlluniau yn nodi targedau mesuradwy gydag amserlen, cyfrifoldebau staff a deilliannau tymor byr a thymor hir. Yn unol â threfniadau'r pennaeth, mae camau gweithredol ar waith eisoes ar gyfer datblygu rôl strategol y corff llywodraethol yn y broses. Mae bob blaenoriaeth wedi ei hariannu'n addas ac mae ffocws amlwg ar ddatblygu medrau disgyblion a chyfoethogi'r darpariaeth dros gyfnod o amser.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau sydd yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a phrofiadau. Mae'r gymdeithas rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn cyfrannu symiau sylweddol iawn i gefnogi'r ysgol a phrynu adnoddau. Er enghraifft, maent wedi diwallu anghenion y llyfrgell, prynu ffynnon ddŵr a thalu am fysiau gwersi nofio drwy'r flwyddyn. Hefyd, mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored yn llwyddo trwy'r ddefnydd o gyfarfodydd y gymdeithas fel fforwm rhieni.

Mae partneriaeth gadarn â'r gymuned leol. Mae ymweliadau â'r gymuned a'r defnydd o unigolion lleol yn cyfrannu'n bwysig i brofiadau'r disgyblion. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol. Mae'r ysgol yn elwa o gefnogaeth busnesau lleol, er enghraifft y gefnogaeth gan un busnes at siop gydweithredol ffrwythau a llysiau ar gyfer yr henoed. Mae'r disgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y gymuned fel Sioe Penrhyncoch a'r eisteddfod flynyddol, sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o'u cymuned yn llwyddiannus.

Mae perthynas dda gyda'r lleoliad nas cynhelir, sy'n cyfarfod yn gyfagos mewn caban ar dir yr ysgol. Mae'r cysylltiad cryf hwn yn helpu disgyblion ifanc i ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin. Mae cyfres adeiladol o gyfleoedd llwyddiannus i gydweithio yn gyfrifol am hyn. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgolion uwchradd. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau pontio effeithiol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgyfarwyddo'n briodol â gofynion cymdeithasol ac addysgol yr ysgolion uwchradd.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gyda'r ysgol arall yn y ffederasiwn anffurfiol a'r ysgolion uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae'r prosesau hyn yn gymorth i athrawon ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol gyfuniad o athrawon profiadol, newydd gymhwyso a rhai wedi'u penodi'n eithaf diweddar. Felly, mewn amser byr, mae'r pennaeth wedi llwyddo i feithrin cydweithrediad da rhwng yr holl staff ac athrawon yr ysgol ffederal er lles y disgyblion. Mae cymorthyddion addysgu yn rhan bwysig o dîm yr ysgol ac maent yn cefnogi a meithrin medrau disgyblion yn effeithiol.

Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon i weithio ar y cyd. Mae gan yr ysgol adnoddau safonol ymhob dosbarth ac mae rhai'n paratoi adnoddau diddorol ac amrywiol eu hunain i gydfynd â'r themau. Mae staff yn defnyddio'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol i ysgogi a sbarduno gwaith a phrofiadau disgyblion.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu i fod yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae ystod eang o gyfleoedd da i staff wella eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol ac i rannu arferion gydag ysgolion eraill. Mae mentrau diweddar i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd gydag ysgol arall yn dechrau cael effaith ar safon mathemateg pen disgyblion, ond mae'n rhy gynnar i fesur effaith lawn y cydweithio hwn eto.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn ofalus ac yn rheoli'r gyllideb yn llwyddiannus. Gwnânt ddefnydd da o'r holl gyllid sydd ar gael, ac mae gwariant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol. Defnyddir y grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol, ac mae wedi arwain at welliannau llwyddiannus mewn safonau darllen a rhesymu mathemateg grwpiau penodol o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672363 - YSGOL GYMUNEDOL PENRHYNCOCH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 91 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 17 | 10 | 13 | 13 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 82.4 | 90.0 | 100.0 | 76.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 10 | 13 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.2 | 90.0 | 100.0 | 76.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 35.3 | 30.0 | 46.2 | 53.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 10 | 13 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 82.4 | 90.0 | 100.0 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 23.5 | 30.0 | 53.8 | 46.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 10 | 13 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 90.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 70.6 | 50.0 | 76.9 | 76.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672363 - YSGOL GYMUNEDOL PENRHYNCOCH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 91 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 12 | 15 | 9 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 91.7 | 93.3 | 100.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 15 | 9 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 93.3 | 100.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 33.3 | 66.7 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 15 | 9 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 86.7 | 100.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 26.7 | 66.7 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 15 | 9 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 93.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 33.3 | 55.6 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 15 | 9 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 93.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 40.0 | 55.6 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 51 | 46<br>90% | 5<br>10% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 51 | 37<br>73% | 14<br>27% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 50 | 49<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 51 | 42<br>82% | 9<br>18% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 51 | 35<br>69% | 16<br>31% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 50 | 46<br>92% | 4<br>8% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 51 | 48<br>94% | 3<br>6% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 51 | 50<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 51 | 34<br>67% | 17<br>33% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 50 | 42<br>84% | 8<br>16% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 51 | 23<br>45% | 28<br>55% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 50 | 19<br>38% | 31<br>62% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 31 | 13 | 14 | 2 | 0 | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 42% | 45% | 6% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 31 | 21 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 68% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 31 | 20 | 10 | 0 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 65% | 32% | 0% | 3% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 31 | 17 | 11 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 55% | 35% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 31 | 8 | 15 | 4 | 1 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 26% | 48% | 13% | 3% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 31 | 12 | 17 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 39% | 55% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 31 | 13 | 18 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 42% | 58% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 31 | 10 | 15 | 4 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 32% | 48% | 13% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 31 | 17 | 8 | 3 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 55% | 26% | 10% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 31 | 18 | 12 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 58% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 31 | 16 | 11 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 52% | 35% | 6% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 31 | 14 | 13 | 0 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 45% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 31 | 11<br>35% | 15<br>48% | 5<br>16% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 30 | 16<br>53% | 9<br>30% | 3<br>10% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 31 | 9<br>29% | 14<br>45% | 2<br>6% | 0<br>0% | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 31 | 17<br>55% | 8<br>26% | 1<br>3% | 0<br>0% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 31 | 4<br>13% | 12<br>39% | 3<br>10% | 0<br>0% | 12 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 31 | 12<br>39% | 12<br>39% | 6<br>19% | 1<br>3% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 31 | 12<br>39% | 12<br>39% | 2<br>6% | 0<br>0% | 5 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Lisa Mererid Mead | Arolygydd Cymheiriaid |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.